



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith brynhawn Iau y 20^{fed} o Chwefror 2020 1:30 y.p. yn Ffestri Capel Noddfa, Rhydypennau, Aberystwyth

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth W Jones	Ysgrifennydd

Eirian Davies, Robert Evans, John Griffith, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams, Phillip Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o groesawu pawb at y cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Dafydd Horan, Dafydd Lewis, Tudur Pritchard ac Elizabeth Roberts,

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 21^{ain} O DACHWEDD 2019

Cynigiodd Gwyn Roberts ac eiliodd Hywel Madog Jones dderbyn y cofnodion a gylchredwyd yn gofnod cywir ar ôl cynnwys un gair wedi'i hepgor.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (i) Cofnod 5ii: Trafodaeth rhwng Golygydd y Cylchlythyr a Golygydd y Naturiaethwr
- (ii) Cofnod 5iii: Dyrannu grantiau i elusennau a chyrff allanol

Triniwyd eitemau (i) a (ii) ar yr un pryd. Cytunodd y PG y dylid ystyried ceisiadau am grantiau sydd yn cydymffurfio ag amcanion y Gymdeithas. Cyflwynwyd polisi drafft "Dyrannu Grantiau Cymdeithas Edward Llwyd" a luniwyd gan Gwyn Roberts a Dafydd Lewis ac fe'i trafodwyd fesul linell. O ran egwyddor, cytunwyd:-

- (a) na ddylid cyfyngu ar y PG yn ddiangen drwy benodi, er enghraifft, mwyafswm grantiau neu ddyddiadau penodol i ystyried ceisiadau
- (b) dylid darparu ffurflen gais
- (c) dylid dangos fersiwn terfynol y polisi ar wefan y Gymdeithas
- (ch) dylid tynnu sylw mai'r Gymraeg yw iaith y Gymdeithas

Diolchodd y Cadeirydd i Gwyn a Dafydd am eu gwaith

- (iii) Cofnod 5iv: Diogelu data Prosiect Llen Natur - Llyfrgell Genedlaethol
Gohiriwyd trafodaeth gan nad oedd cynrychiolydd Llên Natur yn bresennol.
- (iv) Cofnod 5v: Gŵyl Amgylcheddol 2020 Medi 18-20
Dywedodd John Griffith i Gyngor Sir Gaernarfon gytuno i rannu'r gost o logi dwy ystafell. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn llunio rota o wirfoddolwyr i stondin y Gymdeithas a byddai'r Is-gadeirydd yn trefnu'r arddangosfa, gan ddefnyddio'r "pop-yps" o'r Eisteddfod (**pwytiau gweithredu**). Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw y byddai angen argraffu pamffledi ac awgrymodd Jackie Willmington y dylid ystyried darparu copïau o'r daflen i ddysgwyr.
- (vi) Cofnod 5vii Swyddi'r Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cofnodion
Esboniodd yr Ysgrifennydd iddo ymgymryd â llunio agendau cyfarfodydd y PG.
- (vi) Cofnod 9 Cyfarfod Blyneddol 2020 – Siaradwyr Dichonol
Cadarnhaodd yr Is-gadeirydd y byddai Ieuan Wyn yn traddodi darlith "Un o Deithiau Natur R Williams Parry" nos Wener a hefyd arwain taith ddydd Sadwrn. Dywedodd iddo ystyried sgwrs am Afon Menai nos Sadwrn ond fod prinder daearyddwyr sydd yn medru'r Gymraeg. Awgrymodd John Griffith siaradwr a soniodd am Y Foryd ar Radio Cymru gan nodi y gellid trefnu taith gerdded fore Sul yn yr ardal. (**Pwynt gweithredu**).
- (vii) Cofnod 10 Darlith y Gymdeithas yn Eisteddfod Sir Ceredigion
Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd y byddai Iestyn Evans yn siarad ac efallai y byddai Rhoswen Leonard yn cyfrannu.
- (viii) Cofnod 12 Gwefan y Gymdeithas
Dywedodd yr Is-gadeirydd fod y gwariant o £1,567 ar gyfer "gwefan" a gofnodwyd yng nghyfrifon 2018-2019 yn cynnwys tua £150 o wariant ar wefan y Gymdeithas gyda'r gweddill am newidiadau i wefan Llên Natur.

5. TUDALEN GWEPLYFR CELI

Nododd Eirian Davies fod ychydig o eitemau amherthnasol wedi ymddangos ar y dudalen ers ei hagog i'r cyhoedd a gofynnodd a oedd yn dderbyniol iddo eu dileu. Cytunwyd y dylai Eirian barhau i weithredu yn ôl ei farn ei hun. Tynnodd Gwyn sylw y gallai cyfrif Trydar CELI fod yn fwy addas na Gweplyfyr i eitemau o ddi-ddordeb cyffredinol.

6. UNO'R CYLCHLYTHYR A'R NATURIAETHWR

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy ddiolch i Gwyn am Gylchlythyr ardderchog. Ychwanegodd ei bod yn falch o weld dwy erthygl a ddeilliodd o gystadleuaeth y Gymdeithas yn Eisteddfod Sir Gwyn.

Dywedodd John Griffith y gallai fod yn rhatach i gyhoeddi un cylchgrawn. Roedd nifer o aelodau'r PG o blaid uno'r ddau ond tynnwyd sylw bod rhai aelodau'n darllen y Cylchlythyr yn bennaf tra bod y Naturiaethwr yn unig yn berthnasol i sefydliadau allanol, megis colegau a siopau.

Dywedodd y Cadeirydd bod Dafydd Lewis wedi anfon neges yn awgrymu gofyn barn yr aelodau yn yr Eisteddfod drwy gynhyrchu taflen gyda dau flwch ateb "uno" ac "ar wahân". Penderfynwyd gohirio trafodaeth hyd nes i'r Ysgrifennydd gysylltu â'r Lolfa ynglŷn ag effaith uno'r cylchgronau ar gostau (**pwyt gweithredu**)

7. CEFNOGI'R CYLCHGRAWN 'GWYLLT'

Gofynnodd John Griffith a ddylid cynnig cefnogaeth ariannol i "Gwyllt", cylchgrawn i blant a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Esboniodd yr Is-gadeirydd nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio am gefnogaeth ariannol ond y byddent yn croesawu cymorth i ddsbarthu'r cylchgrawn. Dywedodd i'r Gymdeithas fynegi'n parodrwydd i ddangos "Gwyllt" ar ein Stodin yn yr Eisteddfod.

Nododd y Cadeirydd fod "Gwyllt" wedi cael sylw yn rhifyn diweddaraf y Naturiaethwr.

8. TREFNU BEIRNIAD AR GYFER CYSTADLEUAETH YR EISTEDDFOD

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Pwyllgor Canolog yr Eisteddfod wedi gofyn i'r Gymdeithas awgrymu beirniad ar gyfer ein cystadleuaeth. Awgrymwyd Dafydd Lewis.

9. DEFNYDDIO TECHNOLEG I LEIHOU NIFER O GYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Cynigiwyd y dylid lleihau cyfarfodydd y PG i dri y flwyddyn. Mynegwyd amharodrwydd i gwrdd ym mis Tachwedd oherwydd machlud cynnar. Penderfynwyd gan fwyafrif gadw at gwrdd pedair gwaith y flwyddyn ond cytunwyd i:-

- (i) gwrdd awr yn gynt ym mis Tachwedd 2020
- (ii) ystyried cwrdd ym mis Hydref yn lle mis Tachwedd yn 2021

10. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

(a) Yr Is-bwyllgor Marchnata

Adroddodd yr Is-gadeirydd i'r Pwyllgor drafod prynu paneli arddangos, pop-yps a dodrefn newydd i stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod gyda phwyslais ar eitemau sydd yn plygu ar gyfer eu storio'n hwylus. Dywedwyd bod Alan yn bwriadu mynd i weld paneli dan ystyriaeth mewn arddangosfa. Esboniwyd bod posibilrwydd o gydweithredu gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at gynllun Golwg 360 i ddatblygu gwefannau a fyddai'n gyfartal â phapurau bro ac awgrymodd y gellid eu defnyddio i hyrwyddo gweithgareddau'r Gymdeithas.

(b) Is-bwyllgor Llên Natur ni dderbyniwyd adroddiad

(c) Y Trysorydd

Dosbarthwyd y fantolen a ddangosodd incwm o £1,909.55 a gwariant o £5987.73 rhwng 19.11.2019 a 20.02.2020. Bu £40,920.45 mewn llaw, gan gynnwys £17,000 yn nau fond Banc Hodge.

Rhestrwyd gwerth tua £6,350 o eitemau y disgwyliid eu talu yn y dyfodol agos. Dywedodd y Trysorydd y byddai angen hefyd talu tua £3,000 wrth ailwampio stondin yr Eisteddfod. Eglurodd yr Is-gadeirydd y byddai gwariant cyfalaf eleni yn golygu costau llai yn y dyfodol.

Tynnodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth sylw fod codi'r tâl aelodaeth wedi gwella sefyllfa ariannol y Gymdeithas. Nododd y Cadeirydd y dylid trafod tâl aelodaeth 2021/22 yng nghyfarfod ,is Mai.

(ch) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Cyhoeddodd Alan Williams fod Rob Evans yn fodlon ymgymryd â swydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth ar ôl y Cyfarfod Blynyddol. Diolchodd y Cadeirydd i Rob am wirfoddoli.

(d) Trefnyddion Gweithgareddau

Dywedodd Trefnydd Gwynedd a Môn fod dau arweinydd wedi trefnu teithiau yn cychwyn yn yr un man ar yr un dyddiad. Awgrymodd gytuno ffiniau rhwng y rhanbarthau a gofyn i Drefnyddion ymgynghori â'i gilydd cyn trefnu taith mewn rhanbarth Trefnydd arall. Nid oedd mwyafrif o blaid trefniad ffurfiol a phenderfynwyd gadael i Drefnyddion gysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen. Awgrymwyd mai afon Conwy oedd y ffin rhwng y gogledd orllewin a'r gogledd ddwyrain.

(dd) Golygydd y Cylchlythyr

Diolchodd y Golygydd i bawb a gyfrannodd eitemau ar gyfer rhifyn gwanwyn a haf 2020 ac yn enwedig i Drefnydd Gwynedd a Môn am faterion i'r clawr. Ymddiheurodd nad oedd y Lolfa wedi defnyddio rhestr ddiweddaraf o gyfeiriadau e-bost aelodau'r PG.

Ychwanegodd y Golygydd ei fod yn edrych ymlaen at gyfraniadau i'r rhifyn nesaf.

(e) Golygydd y Naturiaethwr

Derbyniwyd e-bost oddi wrth y Golygydd yn mynegi barn am nifer o eitemau ar yr agenda ac yn tynnu sylw ei fod wedi defnyddio dwy erthygl o gystadleuaeth Eisteddfod Llanrwst yn y rhifyn cyfredol.

(f) Trefnydd y Gynhadledd

Derbyniwyd neges oddi wrth Elizabeth Roberts yn adrodd cynnydd boddhaol gyda threfniadau ar gyfer Cynhadledd 2020 yng Nghaernarfon.

(ff) Trefnydd Gwyliau'r Gymdeithas

Diolchodd Carys Parry i Olygydd y Cylchlythyr am gynnwys darn am y cardiau adnabod arbrofol a chadarnhaodd i John Griffith eu dosbarthu yn ei ranbarth. Cytunwyd i archebu mwy ar ôl gwneud unrhyw newidiadau yn ôl adborth yr aelodau.

Adroddodd y Trefnydd bod 16 wedi trefnu ymweld â'r Arfordir Jurasig. Dywedwyd bod y gwesty bellach yn llawn ond gallai aelodau ychwanegol ymuno â'r teithiau petasent yn trefnu eu llefyau eu hunain. Dywedodd iddi drefnu 5 taith a byddai 4 car ar gael.

11. GOHEBIAETH dim

12. UNRHYW FATER ARALL

(i) Dywedodd y Trysorydd y byddai rhaid talu £540 i adnewyddu'r polisi yswiriant yn y dyfodol agos. Adroddodd yr Is-gadeirydd iddo adolygu'r dogfennau a thynnu sylw bod ychydig o fanylion ar goll. Awgrymodd hefyd y dylid ymchwilio cyn y flwyddyn nesaf pam codwyd dau ffi brocer (**pwynt gweithredu**).

(ii) Dywedodd John Griffith fod taith ddydd lau'r Eisteddfod wedi'i threfnu ond y byddai'n ddymunol cynnig un neu ddwy daith fer gyda'r hwyr.

- (iii) Adroddodd y Cadeirydd i Elizabeth dderbyn cof bach oddi wrth Wil Williams o Rhoshirwaen gyda manylion teithiau cerdded a bwriadwyd ei drosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd anfon llythyr o ddiolch (**pwyt gweithredu**).
- (iv) Rhoddwyd gwybod bod Anne Gwynne yn trafod ei llyfr arfaethedig gydag argraffydd a byddai'n cysylltu'n fuan gyda manylion pellach.

13. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020

21^{ain} Mai